# Cynnwys

DYSGU ANNIBYNNOL DAN GYFARWYDDYD: ADNODDAU I FYFYRWYR....1
Dulliau ac adnoddau i gynorthwyo datblygiad dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd ....1
Beth yw dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd? ....1
Yr hyn i'w ddisgwyl yn y brifysgol....1
Paratoi ar gyfer astudio yn y brifysgol ....2
Cymorth ar gyfer eich astudiaethau pan fyddwch chi yn y brifysgol ....2
Datblygu eich sgiliau academaidd ac astudio ....2
Deall addysgu a dysgu a hysbysir gan ymchwil ....2
Dysgu seiliedig ar ymholiadau – safbwynt y myfyriwr ....3

# DYSGU ANNIBYNNOL DAN GYFARWYDDYD: ADNODDAU I FYFYRWYR

## Dulliau ac adnoddau i gynorthwyo datblygiad dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd

### Beth yw dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd?

Dull addysgu a dysgu sy'n neilltuo mwy o gyfrifoldeb i fyfyrwyr o'i gymharu â'r mathau o ddysgu y maent fwyaf tebygol o fod wedi eu dilyn cyn dechrau'r brifysgol yw dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd. Ond dylai myfyrwyr gael eu hymgysylltu, eu galluogi, eu hwyluso a'u cynorthwyo gan staff trwy gyfleoedd perthnasol a dan gyfarwyddyd, dulliau addysgu priodol, ac amgylchedd dysgu priodol (Thomas 2015, tudalennau 7 - 8). Mewn geiriau eraill, disgwylir i fyfyrwyr ddysgu sut i ddadansoddi problemau yn annibynnol, dod o hyd i wybodaeth ddibynadwy ac atebion, darparu rhesymau am eu hatebion ac ati heb gael eu hysbysu sut i wneud popeth gan diwtor. Mae'n golygu 'dysgu sut i ddysgu' mewn gwahanol ffordd, ac yn paratoi myfyrwyr i fod yn unigolion dyfeisgar, creadigol ac ymreolaethol trwy gydol eu bywydau, nid yn unig yn eu hastudiaethau. Yn yr un modd ag unrhyw ddull newydd, mae'n helpu i gael rhywfaint o gyfarwyddyd, fodd bynnag, a dyna'r rheswm am y dull 'dan gyfarwyddyd'.

Os hoffech wybod mwy am ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd, ei fanteision a'i heriau, a'r ffurfiau y gall cymorth a chyfarwyddyd eu cymryd, cymerwch olwg ar yr adnodd 'Trosolwg o Ddysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd. Er ei fod wedi ei ysgrifennu ar gyfer staff, mae'r wybodaeth a ddarperir yn berthnasol i fyfyrwyr hefyd.

Thomas, Liz (Gol) (2015). *Compendium of effective practice in directed independent learning.* Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a'r Academi Addysg Uwch. heacademy.ac.uk/knowledge-hub/effective-practice-design-directed-independent-learning-opportunities (ymwelwyd ym mis Ebrill 2018)

### Yr hyn i'w ddisgwyl yn y brifysgol

Cyfres o fideos cryno yn dangos cyfweliadau â myfyrwyr yn rhoi cyngor ar sut y mae addysg uwch yn wahanol i'r ysgol, a sut i ymdopi

nottingham.ac.uk/studyingeffectively/studying/independent.aspx

## Paratoi ar gyfer astudio yn y brifysgol

Cwrs cryno hunan-fynediad rhyngweithiol i fyfyrwyr Skills4Uni http://www.skills4uni.bham.ac.uk/

Os ydych yn ymuno â chwrs rhan-amser neu gwrs arall â dulliau astudio nad ydynt yn draddodiadol: Canllawiau dysgu hyblyg i fyfyrwyr heacademy.ac.uk/knowledge-hub/flexible-learning-practical-introduction-students

Gwaith ac adnoddau sefydlu a phontio yn Abertawe

## Cymorth ar gyfer eich astudiaethau pan fyddwch chi yn y brifysgol

Gwasanaethau cymorth llyfrgell cynhwysol

MyUniHub – trysorfa o wybodaeth a phethau defnyddiol myuni.swan.ac.uk/cy/

Gwybodeath a chanllawiau if fyfyrwyr ar Lyfrgell Abertawe

Pecyn mentora cymheiriaid Abertawe

Gwybodaeth Abertawe am fentora academaidd

Gwybodaeth am fannau astudio Abertawe

Gwybodaeth TG Abertawe

Canllawiau i staff ar ddysgu ar lein

Pecyn cymorth cadernid AMOSSHE i'w ddefnyddio gyda myfyrwyr ac yn cynnwys cydbwysedd emosiynol, hunan-reoli ac integreiddio cymdeithasol

## Datblygu eich sgiliau academaidd ac astudio

Llyfrgell Abertawe Information and Digital Literacy Framework

Tiwtorialau Ar-lein Abertawe (SWOTs). Bydd y cyswllt hwn yn uniongyrchol yn gweithio os ydych chi'n mewngofnodi i Blackboard. blackboard.swan.ac.uk/webapps/blackboard/content/listContent.jsp?course_id=_52692_1&content_id=_2644198_1 Maent ar gael i bob myfyriwr.

Canolfan Llwyddiant Academaidd Abertawe (yn cynnwys nifer o weithdai sgiliau astudio a 'dysgu sut i ddysgu') swansea.ac.uk/cy/amrywiol/adran-gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr/rhaglenllwyddiantacademaidd/

Cwrs Bb Ar-lein Prifysgol Abertawe i fyfyrwyr*: Llwyddiant Academaidd: Sgiliau ar gyfer Dysgu, Sgiliau ar gyfer Bywyd*

iTest (hunanasesiad o'ch lefel 'llythrennedd digidol') wip.exeter.ac.uk/collaborate/itest/

Disgrifyddion o alluoedd ysgolorion sy'n ddechreuwyr, yn ganolradd ac yn arbenigwyr ar gyfer chwe dimensiwn o wybodaeth a llythrennedd digidol a sheffield.ac.uk/library/idlt

## Deall addysgu a dysgu a hysbysir gan ymchwil

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn crynhoi'r gwahanol fathau o addysgu wedi ei hysbysu gan ymchwil yr ydych yn debygol o gael profiad ohonynt yn y brifysgol.

## Dysgu seiliedig ar ymholiadau – safbwynt y myfyriwr

### DYSGU I FEIRNIADU GWAITH YMCHWIL

- Byddwch yn dysgu i werthuso gwaith ymchwil yn feirniadol a sut i symud gwaith ymchwil yn ei flaen, trwy gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp bach yn nodweddiadol, gyda thiwtor neu heb diwtor i ystyried canfyddiadau ymchwil;
- Mae enghreifftiau yn cynnwys trafodaethau hanfodol am bapurau ymchwil ac ysgrifennu adolygiadau llenyddiaeth beirniadol.

**Rydych chi'n cyflawni gweithgareddau ymchwil**

### DYSGU FEL YMCHWILYDD

- Byddwch yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o'ch pwnc trwy weithgareddau 'seiliedig ar ymholiadau' neu ymchwil;
- Byddwch yn mynd i'r afael yn weithredol â phroblemau a materion trwy e.e. astudiaethau achos, gweithgareddau datrys problemau, teithiau maes ac efelychiadau, neu drwy eich prosiect ymchwil graddfa fach eich hun;
- Efallai y byddwch chi a'ch tiwtor yn cymryd rhan yn y broses ymholi, gyda'ch tiwtor yn gweithredu fel y 'partner' ymchwil mwy profiadol.

Rydych chi'n canolbwyntio ar ganfyddiadau ymchwil

### YMHOLI A MYFYRIO AR ADDYSGU A DYSGU

- Efallai y bydd tiwtoriaid yn gallu gwneud gwaith ymchwil i'w haddysgu eu hunain, a gofyn am eich mewnbwn a'ch safbwyntiau fel data ar gyfer hyn;
- Efallai y gofynnir i chi fyfyrio'n feirniadol ar sut yr ydych yn dysgu, a sut y gallech ddod yn well dysgwr;
- Efallai y gofynnir i chi roi adborth ar eich profiadau dysgu trwy holiaduron, cyfweliadau neu grwpiau ffocws, neu i gadw portffolio myfyriol;
- Rydych chi'n mabwysiadu meddylfryd ymchwil tuag at ddysgu ac addysgu.

You focus on research processes

### DYSGU AM GANFYDDIADAU YMCHWIL

- Byddwch yn dysgu am ganfyddiadau ymchwil pobl eraill, gan gynnwys eich tiwtoriaid, ac yn casglu enghreifftiau a ffyrdd o gyflwyno cysyniadau a damcaniaethau;
- Efallai y bydd yr addysgu trwy ddarlithoedd, gwaith darllen gosod neu gynnwys ar-lein sy'n eich hysbysu am yr hyn y mae angen i chi ei wybod, yn ogystal â chi yn chwilio am wybodaeth eich hun am waith ymchwil staff sy'n eich addysgu.

Rydych chi'n gwrando ar weithgareddau ymchwil pobl eraill ac yn eu darllen

### DYSGU AM BROSESAU YMCHWIL

- Byddwch yn dysgu am y ffyrdd y mae gwybodaeth yn cael ei chynhyrchu. E.e. ystyried yn feirniadol dulliau ymchwil a gyflwynir mewn papurau ymchwil a llyfrau academaidd;
- Efallai y byddwch yn paratoi i wneud eich gwaith ymchwil eich hun ar gyfer prosiect neu draethawd hir, ac yn dethol eich dulliau ymchwil eich hun;
- Efallai y bydd tiwtoriaid yn eich annog i 'feddwl fel' ymchwilwyr, ac nid derbyn dulliau ymchwil pobl eraill heb feddwl.

Dyfyniad o *'Cultivating student expectations of a research-informed curriculum: Developing and promoting pedagogic resonance in the undergraduate student learning pathway'* McLinden, M. ac Edwards, C. (2017) yn *Developing the Higher Education Curriculum: Research -Based Education in Practice.* Eds. Carnell, B and Fung, D. tudalennau 14 – 30. Ar gael o dan drwydded Creative Commons o [ucl.ac.uk/ucl-press/browse-books/developing-the-higher-education-curriculum](ucl.ac.uk/ucl-press/browse-books/developing-the-higher-education-curriculum)

**Pecyn Cymorth Dysgu Annibynnol Dan Gyfarwyddyd**

Prifysgol Abertawe, 2018, gyda chyllid grant gan Advance AU advance-he.ac.uk, a datblygu gan Corony Edwards Consulting coronyedwards.co.uk.  Ar gael o dan: Creative Commons Attribution-Non-commercial-ShareAlike 4.0 International Licence creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0 /